OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 4 Ionawr 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway from Junction 18 (Llandudno Junction) to Junction 20 (Brompton Avenue), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 December 2020* |
| *Coming into force* | *4 January 2021* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway from Junction 18 (Llandudno Junction) to Junction 20 (Brompton Avenue), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 4 January 2021.

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 4 Ionawr 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gerbytffordd tua’r dwyrain cefnffordd yr A55 Caer i Fangor sy’n ymestyn o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” *(“cerbyd esempt”)* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the length of the eastbound carriageway of the A55 Chester to Bangor trunk road that extends from Junction 18 (Llandudno Junction) to Junction 20 (Brompton Avenue), Conwy County Borough;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 4 January 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 29 December 2020

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN O GYFFORDD 18 (CYFFORDD LLANDUDNO) I GYFFORDD 20 (BROMPTON AVENUE), BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) a Chyffordd 20 (Brompton Avenue), Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue). Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 2 gam.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio o Gyffordd 18 i Gyffordd 19 fydd mynd ar yr A546 a'r A547 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 19. Y llwybr arall o Gyffordd 19 i Gyffordd 20 fydd mynd ar yr A547 tua'r dwyrain drwy Fochdre i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 20.

Ni fydd modd i gerbydau sy'n lletach na 3 metr ddefnyddio'r llwybrau eraill a chaiff unrhyw gerbydau o'r fath eu cyfarwyddo i barcio mewn cilfannau dynodedig hyd nes y bydd y gerbytffordd yn ailagor.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021 a disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro gweithredu fel a ganlyn neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol:

- Cyffordd 18 i Gyffordd 19 – dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Ionawr 2021 a dod i ben am 06:00 o'r gloch ar 5 Ionawr 2021.
- Cyffordd 19 i Gyffordd 20 – dechrau ar 5 Ionawr 2021, gan weithredu dros nos yn unig (20:00 – 06:00 o'r gloch), a dod i ben ar 9 Ionawr 2021.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A55 TRUNK ROAD (EASTBOUND CARRIAGEWAY FROM JUNCTION 18 (LLANDUDNO JUNCTION) TO JUNCTION 20 (BROMPTON AVENUE), CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 18 (Llandudno Junction) and Junction 20 (Brompton Avenue), Conwy.

The effect of the Order to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the eastbound carriageway of the A55 trunk road that extends from Junction 18 (Llandudno Junction) to Junction 20 (Brompton Avenue). The works will be undertaken in 2 phases.

The alternative route for traffic from Junction 18 to Junction 19 is via the eastbound A546 and A547 to rejoin the A55 at Junction 19. The alternative route from Junction 19 to Junction 20 is via the eastbound A547 through Mochdre to rejoin the A55 at Junction 20.

Vehicles over 3 metres wide will be unable to use the alternative routes and any such vehicles will be directed to park in designated lay-bys until the carriageway reopens.

The Order will come into force on 4 January 2021 and the temporary prohibitions are expected to operate as follows or until the temporary traffic signs are permanently removed:

- Junction 18 to Junction 19 – commencing at 20:00 hours on 4 January 2021 and finishing at 06:00 hours on 5 January 2021.
- Junction 19 to Junction 20 – commencing on 5 January 2021, operating overnight only (20:00 – 06:00 hours) and ending on 9 January 2021.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government